



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru

REOL



Mai 2017

 Cadw

Datganiad o Ddiben

Mae Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru yn ategu Polisi Cynllunio Cymru¹ a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.²

Mae'n nodi egwyddorion cyffredinol ac arferion da ar gyfer llunio a rheoli rhestrau o asedau hanesyddol lleol — gan gynnwys meini prawf, enwebu, ymgynghori, dilysu, apelau a monitro — ac yn rhoi arweiniad ar sut y dylid eu defnyddio yn y system gynllunio.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu'n bennaf at awdurdodau cynllunio lleol, ond hefyd at sefydliadau yn y trydydd sector a pherchenogion asedau hanesyddol, er mwyn annog pob sector i gydweithio i warchod a gwella asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig ac ysbrydoli pobl i ofalu am eu treftadaeth leol.



Llywodraeth Cymru
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000
E-bost: cadw@wales.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2017
ISBN Digidol 978 1 4734 8699 7

OGI © Hawlfraint y Goron 2017, Llywodraeth Cymru, Cadw, ac eithrio lle nodir yn wahanol. WG24305

Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru yw Cadw, sy'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Llun y clawr: Caban ceidwad y parc yng Ngerddi'r Faenor, Caerdydd, sydd ar Restr Leol Caerdydd o Adeiladau o Deilyngdod (© Hawlfraint y Goron, Cadw, Llywodraeth Cymru).

Cynnwys

Ffeithiau Cyflym

Cyflwyniad

1 Beth yw Rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig?

2 Datblygu Rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

2.1 Amlinellu'r Cefndir: Adnabod yr Ardal

2.2 Datblygu Meini Prawf ar gyfer Dethol

3 Llunio a Rheoli Rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

3.1 Sut i Nodi Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

3.1.1 Arolwg Systematig

3.1.2 Gweithio mewn Partneriaeth

3.1.3 Cyllid

3.2 Tystiolaeth Ategol

3.3 Dilysu

3.4 Hysbysu, Ymgynghori ac Adolygu

3.5 Mabwysiadu

3.6 Monitro ac Adolygu

3.7 Mynediad at Wybodaeth

4 Rheoli Newidiadau i Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

4.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

4.2 Cynlluniau Datblygu Lleol

4.3 Rheoli Datblygu

4.4 Canllawiau Cynllunio Atodol

4.5 Gwybodaeth a Chyngor i Berchenogion


Cyfeiriadau

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

Ffeithiau Cyflym ↵

- 1 Gall rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig gydnabod a dathlu natur unigryw ardaloedd lleol.
- 2 Gall rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig ysbrydoli pobl i werthfawrogi eu treftadaeth ac i ofalu amadani.
- 3 Gall rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig helpu awdurdodau cynllunio lleol i warchod asedau hanesyddol sy'n bwysig yn lleol ac i gadw neu wella cymeriad lleol.
- 4 Gall rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig ategu asedau hanesyddol y nodwyd eu bod o bwys cenedlaethol.
- 5 Mae llunio rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn fater gwirfoddol, ond os yw awdurdod cynllunio lleol yn dewis nodi'r asedau hynny, rhaid iddo gynnwys polisiâu yn ei gynllun datblygu ar gyfer eu cadw a'u gwella.
- 6 Mae rhoi rhan i bobl leol wrth lunio rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn fodd i ennyn diddordeb ac i feithrin partneriaethau rhwng y gymuned a'r awdurdod cynllunio lleol.



Cyflwyniad ↯

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan hanfodol o'n treftadaeth ddiwylliannol gyffredin. Mae'n creu ein hymdeimlad o le a'n hunaniaeth ac yn cyfrannu at ein lles ac ansawdd ein bywyd. Nodwyd bod rhai elfennau o'r amgylchedd hanesyddol o bwys cenedlaethol — ein henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a'n parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Ochr yn ochr â'r asedau hyn a gydnabyddir yn genedlaethol, mae treftadaeth leol werthfawr sydd yn aml yn cael ei choleddu gan y gymuned ac yn cyfrannu at gymeriad, ond nad yw'n cael ei chydabod na'i gwarchod yn ffurfiol.

Mae rhestrau lleol yn darparu'r sylfaen wybodaeth sy'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gydnabod asedau hanesyddol sydd o bwysigrwydd lleol penodol yn y broses rheoli datblygu drwy bolisiau yn y cynllun datblygu lleol y gellir eu hategu â chanllawiau cynllunio atodol. Gall hyn helpu awdurdodau cynllunio lleol i reoli newid fel y gall asedau hanesyddol lleol barhau i ymateb i anghenion y presennol a chyfrannu at fywiogrwydd yr ardal gan sicrhau nad amherir ar eu cymeriad.

Mae rhestrau lleol hefyd yn nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig ac yn cynnig cyfle i gymuned gymryd rhan yn y gwaith o'u nodi a gofalu amdanynt yn briodol. Gyda'i gilydd, gall y manteision hyn helpu i greu'r Gymru a garem yn y dyfodol drwy gwrdd â'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.³

Mae gan rai awdurdodau lleol restrau lleol eisoes; eir ati yn y canllawiau hyn i nodi'r egwyddorion cyffredinol a'r arferion da y dylid eu dilyn wrth fynd ati i sefydlu rhestrau newydd o asedau o ddiddordeb lleol arbennig.

I. Beth yw Rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig? ↯

Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Bydd y rhestr hon yn cynnwys asedau hanesyddol lleol eraill nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, neu barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Dylai'r asedau i'w cynnwys ar y rhestr wneud cyfraniad pwysig at natur unigryw ardaloedd lleol a dylai fod ganddynt y potensial i gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd.⁴ Dylai'r broses o'u dethol fod yn seiliedig ar feini prawf clir, tystiolaeth leol gadarn ac ar ymgynghori.

Os oes rhestr fabwysiedig o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig ar gael, mae'n rhaid ei hychwanegu at y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol, sef y brif ffynhonnell wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol y dylid ei defnyddio ar gyfer penderfyniadau cynllunio, ac sydd ar gael i'r cyhoedd.⁵

Nid oes angen cyfyngu asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig i adeiladau, ond gallant gynnwys pob math o ased hanesyddol gan gynnwys parciau, gerddi a safleoedd archaeolegol. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn ffurfio cymeriad hanesyddol unigryw ardal. Yn ogystal â safleoedd a strwythurau prin a phwysig mae pethau cyffredin neu bob dydd hefyd yn cyfrannu at ffurfio'r cymeriad hwn. Mae rhestru asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn ategu prosesau dynodi statudol.

O bryd i'w gilydd, caiff asedau o bwysigrwydd cenedlaethol posibl eu nodi wrth fynd ati i restru'n lleol. Mae Cadw yn fodlon ystyried ceisiadau i ddynodi ac i gofrestru asedau hanesyddol yn genedlaethol ar ran Gweinidogion Cymru. Ceir manylion cyswllt yn yr adran 'Cysylltiadau'.

2. Datblygu Rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig ↵

2.1 Amlinellu'r Cefndir: Adnabod yr Ardal ↵

Cyn nodi'r meini prawf ar gyfer dethol, gall fod yn ddefnyddiol llunio datganiad cyffredinol o arwyddocâd sy'n disgrifio'r cymeriad hanesyddol neu ranbarthol a'r hyn sy'n ei wneud yn arbennig.⁶ Dylai'r datganiad hwn helpu'r awdurdod cynllunio lleol i ddatblygu meini prawf penodol sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag amgylchiadau lleol. Gallai'r broses o lunio'r datganiad hwn fod yn gyfle da i annog y gymuned i gymryd rhan. Gallai'r datganiad ymdrin â'r themâu canlynol:

- gwreiddiau a thwf yr ardal a chyfnodau pwysig yn ei hanes, megis anheddiad cynhanesyddol neu ddatblygiad diwydiannol
- pobl neu ddigwyddiadau o bwys lleol
- patrymau anheddu; er enghraifft, patrymau strydoedd, y gyberthynas rhwng adeiladau a manau agored
- traddodiadau adeiladu, megis deunyddiau, technegau ac arddulliau sy'n nodweddiadol o'r ardal leol
- hanes cymdeithasol; er enghraifft, traddodiadau ac arferion crefyddol neu gysylltiadau llenyddol ac artistig.

Mae *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*⁷ yn esbonio pa mor bwysig yw sylfaen dystiolaeth gadarn er mwyn deall a gwerthuso cymeriad lleol. Mae Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru wedi llunio pecynnau cymorth er mwyn helpu i nodi cymeriad trefol hanesyddol.⁸

2.2 Datblygu Meini Prawf ar gyfer Dethol ↵

Er mwyn sefydlu sylfaen gadarn ar gyfer rhestr leol, mae'n rhaid wrth feini prawf clir a fu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ac a fabwysiadwyd yn ffurfiol.

Mater hawdd yw addasu ac estyn y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer dynodi a chofrestru asedau hanesyddol yn genedlaethol fel y bo modd eu defnyddio'n lleol. Mae rhai awgrymiadau ar gyfer meini prawf i'w gweld yn y tabl isod.

Ceir manylion y meini prawf a ddefnyddir i ddynodi adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig a pharciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yn *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*⁹ a gallant ddarparu fframwaith cyffredinol defnyddiol ar gyfer datblygu meini prawf sy'n benodol i'r ardal leol. Gall meini prawf awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer dethol ardaloedd cadwraeth fod yn ddefnyddiol hefyd.

Meini prawf enghreifftiol ar gyfer asesu diddordeb lleol arbennig asedau hanesyddol, sy'n addasiad o feini prawf dynodi a chofrestru cenedlaethol

Maen prawf	Disgrifiad
Diddordeb Esthetig: Pensaernïaeth a Thirweddau Dyluniedig	Asedau hanesyddol sy'n bwysig i'r ardal leol neu'r rhanbarth oherwydd nodweddion diddorol eu cynlluniau, eu haddumiadau neu eu crefftwaith, gan gynnwys enghreifftiau o fathau ac arddulliau o adeiladau sy'n nodweddiadol o'r ardal leol ac sydd mewn cyflwr da, neu ddulliau o adeiladu neu ddefnyddio deunyddiau sy'n nodweddiadol o'r ardal leol. Parciau, gerddi a mannau hamdden y mae eu cynllun yn cyfrannu at gymeriad a natur unigryw ardal leol.
Diddordeb Archaeolegol	Safleoedd â thystiolaeth neu botensial archaeolegol gymhellol; henebion sy'n perthyn i gategori o safle neu gyfnod sy'n nodweddiadol o'r rhanbarth neu'r ardal leol.
Diddordeb Hanesyddol	Asedau hanesyddol o bob math sy'n dangos agweddau pwysig ar fywyd y rhanbarth neu'r ardal leol yn y gorffennol, yn enwedig ei hanes cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol.
Cysylltiad Hanesyddol	Asedau hanesyddol o bob math sydd â chysylltiad hanesyddol agos â phobl, digwyddiadau neu fudiadau sy'n bwysig i'r rhanbarth neu'r ardal leol.
Gwerth Grŵp	Asedau hanesyddol o bob math sydd â chydberthynas weledol, dyluniol neu hanesyddol glir neu sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at leoliad asedau hanesyddol eraill, neu at gymeriad anheddiad.
Gwerth Cymdeithasol a Chymunedol	Asedau hanesyddol sydd â gwerth cymdeithasol sy'n cyfrannu at natur unigryw ardal leol neu at ryngweithio cymdeithasol; asedau sy'n cyfrannu at hunaniaeth leol neu gof torfol; asedau sydd â gwerth ysbrydol neu arwyddocâd symbolaidd.
Oedran	Mae oedran unrhyw ased hanesyddol o unrhyw fath yn berthnasol, ond efallai y bydd cyfnodau hanesyddol penodol, gan gynnwys y rhai mwy diweddar, yn arbennig o bwysig i'r ardal leol.
Prinder	Asedau hanesyddol sy'n darparu tystiolaeth brin sydd wedi goroesi o agwedd benodol ar hanes a datblygiad yr ardal leol.

3. Llunio a Rheoli Rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig ↯

Mae'n fuddiol i bolisiau yn y cynllun datblygu lleol dynnu sylw at werth treftadaeth leol a nodi sut y dylid ystyried ei chadw a'i gwella yn ystod y broses gynllunio. Er mwyn cymhwyso'r polisiau hyn yn llwyddiannus, mae angen sail dystiolaeth wrthrychol sydd wedi'i chysylltu'n agos â'r cynllun datblygu lleol a chanllawiau atodol, a gall fod ar ffurf rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.

3.1 Sut i Nodi Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig ↯

Dylai asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig gael eu nodi drwy waith arolygu systematig sydd, os oes modd, yn gysylltiedig â'r broses o lunio ac adolygu'r cynllun datblygu lleol. Dylai'r broses arolygu ddod â rhanddeiliaid â diddordeb at ei gilydd ac ennyn diddordeb y gymuned a'i hannog i gymryd rhan yn y broses o'r cychwyn. Gall cyfarfodydd cyhoeddus, arddangosfeydd, digwyddiadau lansio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol fod yn ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â'r gynulleidfa ehangaf posibl.

3.1.1 Arolwg Systematig ↯

Gall ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol gynnwys nifer fawr o asedau hanesyddol sy'n golygu y byddai'n anymarferol cynnal arolwg o bopeth ar yr un pryd. Mae sawl ffordd y gall awdurdodau cynllunio lleol drefnu arolygon er mwyn rheoli'r broses, er enghraifft:

- mewn ardaloedd **daeryddol**, megis ardaloedd cynghorau cymunedol, neu drwy gysylltu arolygon â gweithgarwch arall megis arfarniadau o ardaloedd cadwraeth neu ymarfer i ddisgrifio nodweddion hanesyddol
- yn ôl y **math o ased** fel y'i nodir yn y datganiad cyffredinol o arwyddocâd
- yn ôl y **thema hanesyddol** fel y'i nodir yn y datganiad cyffredinol o arwyddocâd.

Mae gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn y cofnod o'r amgylchedd hanesyddol lleol, sy'n cael ei gadw gan yr ymddiriedolaeth archaeolegol briodol ac sydd ar gael ar-lein drwy Archwilio,¹⁰ yn fan cychwyn da ar gyfer arolwg systematig. Mae'n bosibl bod gwybodaeth am safleoedd a lleoedd o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol ar gael eisoes yn y cofnod o'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n bosibl bod ynddo gofnodion am gymeriad hanesyddol lleol, yn ogystal â chanfyddiadau ymchwiliadau hanesyddol ac archaeolegol, a allai fod o gymorth.

Ffynhonnell ddefnyddiol arall yw Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sy'n cael ei gadw gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru.¹¹ Mae gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru a chynghorwyr archaeolegol mewnol yr awdurdodau lleol arbenigedd hefyd, a fydd yn adnodd amhrisiadwy. Mae'n bosibl y bydd cymdeithasau amwynderau a chymdeithasau hanesyddol neu ddinesig lleol yn gallu helpu hefyd.

Mae Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) yn cynnal Cof Cymru — cofnod ar-lein o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru.¹²

Gall astudiaethau o nodweddion, arfarniadau o ardaloedd cadwraeth ac arolygon eraill sy'n bodoli eisoes hefyd fod yn ddefnyddiol. Gall cyhoeddiadau a chronfeydd data a gedwir gan y gymuned, y trydydd sector, sefydliadau'r llywodraeth a sefydliadau anllywodraethol hefyd fod yn ffynonellau posibl o wybodaeth. Yn ystod cylch yr arolwg, gallai awdurdodau cynllunio lleol wahodd enwebiadau gan y cyhoedd ar sail y meini prawf cyhoeddedig.

Mae ymweliadau â safleoedd yn hanfodol i ategu'r gwaith ymchwil desg a meithrin dealltwriaeth o'r nodweddion a'r amgylchedd ffisegol.

Nid yw nodi ac ystyried safleoedd ar sail ad hoc drwy'r broses rheoli datblygu, mewn ymateb i geisiadau cynllunio neu ymholiadau cyn ymgeisio, yn ffordd briodol o nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.

3.1.2 Gweithio mewn Partneriaeth ⇄

Mae cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o lunio rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn fodd i gasglu gwybodaeth, profiad a barn eang, mae'n meithrin dysgu a chyfranogiad ac yn hyrwyddo ymdeimlad o berchenogaeth.

Mae partneriaeth gref rhwng awdurdodau lleol a'r gymuned yn ffordd dda o nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a churadu rhestr sy'n gwneud cyfiawnder â threftadaeth leol. Gallai fod gan gynghorau cymuned a thref, grwpiau lleol, cymdeithasau dinesig a hanesyddol, ysgolion a cholegau a gwirfoddolwyr annibynnol i gyd rôl i'w chwarae.

Bydd angen cydgysylltu partneriaethau a sefydlwyd er mwyn arolygu asedau hanesyddol lleol, yn unol ag amcanion a meini prawf y cytunwyd arnynt, ac efallai y bydd angen rhywfaint o hyfforddiant.

3.1.3 Cyllid ⇄

Efallai y bydd rhywfaint o gymorth ariannol ar gael ar gyfer gweithgarwch arolygu sy'n cynnwys y gymuned, er enghraifft, oddi wrth Cadw neu Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Ceir manylion cyswllt yn yr adran 'Cysylltiadau'.

3.2 Tystiolaeth Ategol ⇄

Mae'n rhaid i restrau lleol fod yn seiliedig ar dystiolaeth gywir a dibynadwy. Dylai argymhellion gael eu hategu gan wybodaeth sy'n ddigon manwl a chywir i ddangos bod y meini prawf ar gyfer dethol wedi'u bodloni. Gall templed ar gyfer cofnodi gwybodaeth fod yn ddefnyddiol. Gallai gynnwys y canlynol:

- datganiad o arwyddocâd
- asesiad o'r ased yn unol â'r meini prawf y cytunwyd arnynt
- gwybodaeth weinyddol a lleoliadol
- ffotograffau.

3.3 Dilysu ⇸

Yr awdurdod cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddilysu safleoedd i'w cynnwys ar restr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, ond mae ffyrdd gwahanol o wneud hynny:

- gallai safleoedd gael eu dilysu'n fewnol gan staff cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol
- pan fydd panel cynghori ar gadwraeth eisoes yn bodoli, gellid ei ddefnyddio i ddarparu asesiadau annibynnol o enwebiadau
- gellid sefydlu panel dethol arbennig, gan ddefnyddio arbenigwyr ym meysydd hanes lleol, pensaernïaeth, archaeoleg a chadwraeth (gan gynnwys arbenigwyr o awdurdodau cynllunio cyfagos), aelodau o gymdeithasau amwynder a chynrychiolwyr y gymuned leol.

Dylid asesu enwebiadau yn unol â'r meini prawf y cytunwyd amynt a dylid nodi unrhyw ddiffygion neu wallau mewn gwybodaeth ategol. Bydd ymgynghori â'r cyhoedd er mwyn profi dilysrwydd, dibynadwyedd a hygrededd enwebiadau yn hyrwyddo ymrwymiad lleol i'r broses ac i'r rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb arbennig lleol.

3.4 Hysbysu, Ymgynghori ac Adolygu ⇸

Os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu cynnwys ased hanesyddol ar restr leol, dylai ymgynghori â'r perchennog/deiliad a rhoi cyfle iddo fynegi ei farn.

Os bydd yr awdurdod cynllunio lleol am fwrw ymlaen i gynnwys ased hanesyddol, dylai'r perchennog/deiliad gael cyfle i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad. Dylid cyfyngu'r rhesymau dros gynnal yr adolygiad i'r canlynol:

- mae tystiolaeth newydd wedi dod i law nad oedd ar gael pan gynhaliwyd yr asesiad sy'n dangos nad yw'r adeilad neu'r safle dan sylw yn bodloni meini prawf y cytunwyd amynt yn lleol
- mae caniatadau cynllunio dilys neu ganiatadau dilys eraill eisoes yn bodoli sy'n darparu ar gyfer gwaith dymchwel neu addasu.

Pan fydd panel dethol annibynnol eisoes wedi'i sefydlu, mae'n bosibl mai dyma'r corff priodol i ymdrin ag adolygiadau. Fel arall, gellid enwebu awdurdod cynllunio lleol arall fel y corff adolygu, neu efallai y bydd fforymau swyddogion cadwraeth rhanbarthol yn gallu cyflawni'r dasg hon.

3.5 Mabwysiadu ⇸

Pan fydd yr asedau hanesyddol a enwebwyd wedi'u dilysu, dylai'r awdurdod cynllunio lleol fabwysiadu'r rhestr yn ffurfiol gan ddefnyddio gweithdrefn y cyngor. Unwaith y caiff y rhestr leol ei mabwysiadu'n ffurfiol, dylai'r awdurdod cynllunio lleol ei defnyddio'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth sy'n llywio'r cynllun datblygu lleol. Pan fo rhestr leol a fabwysiadwyd yn nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, dylid cynnwys polisiâu penodol i'r ardal leol ar gyfer eu gwarchod a'u gwella.¹³ Bydd mynd ati fel hyn i lunio polisiâu sy'n rhai penodol i'r ardal leol ar gyfer asedau hanesyddol lleol yn fodd i sicrhau bod yr asedau hynny'n cael eu hystyried drwy'r system gynllunio.

Byddai modd defnyddio canllawiau cynllunio atodol i roi arweiniad pellach a fyddai'n ymhelaethu ar bolisiau'r cynllun datblygu lleol ar asedau hanesyddol lleol.¹⁴ Gallai canllawiau cynllunio atodol gyfeirio at y rhestr a fabwysiadwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol.

3.6 Monitro ac Adolygu ⇐

Mae'n bwysig bod y rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn parhau i fod yn berthnasol. Felly, mae system ar gyfer ei monitro a'i hadolygu'n barhaus yn hanfodol.

Gall adolygiad arwain at ychwanegiadau at y rhestr, ond hefyd at ddileu asedau, er enghraifft, pan fydd ased wedi'i newid mewn ffordd sy'n lleihau ei ddiddordeb lleol arbennig.

3.7 Mynediad at Wybodaeth ⇐

Mae'n bwysig bod rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig ar gael yn hwylus ac yn rhad ac ddim. Mae'n rhaid cynnwys y rhestr yn y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol,¹⁵ sy'n cael ei ddiweddarau ac sydd ar gael i bawb drwy Archwilio¹⁶ neu'n bersonol. Mae llyfrgelloedd lleol a gwefannau awdurdodau cynllunio lleol hefyd yn fannau da i roi copïau o'r rhestr leol.

Mae asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn ategu henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, a pharciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a ddynodwyd yn genedlaethol. Gall rhestr integredig sy'n rhoi darlun cyflawn o'r holl asedau hanesyddol mewn ardal helpu i feithrin dealltwriaeth y cyhoedd.

Bydd cysylltu'r rhestr o asedau hanesyddol lleol â systemau gwybodaeth ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir at ddibenion cynllunio hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth ar y rhestr leol ar gael yn hawdd yn y broses rheoli datblygu.

Dylid cyflwyno gwybodaeth am asedau hanesyddol o ddiddordeb arbennig lleol mewn fformat safonedig gan y bydd hyn yn ei gwneud yn haws ei defnyddio. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- hanes cryno a disgrifiad o'r ased sy'n tynnu sylw at nodweddion pwysig
- y rhesymau dros ei gynnwys ar y rhestr
- amcanion rheoli.

4. Rheoli Newidiadau i Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig ⇐

4.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol ⇐

Mae *Polisi Cynllunio Cymru* yn nodi y gall awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu a chyhoeddi rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig nad ydynt yn cael eu gwarchod yn statudol eisoes.¹⁷

Mae rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yng Nghymru yn agored i'r un prosesau cydsyniad â'r rhai sydd eu hangen ar gyfer caniatâd cynllunio. Mae rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig yn cael ei chadw, nid er mwyn atal newid, ond er mwyn sicrhau bod arwyddocâd asedau lleol yn cael ei ystyried mewn ffordd gymesur pan fydd newidiadau yn cael eu hystyried.

Mae asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig mewn ardaloedd cadwraeth yn cael budd eisoes o'r rheolaeth gyffredinol dros waith dymchwel a sicheir gan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.¹⁸ Yn yr un modd, mae cadw olion archaeolegol, pa un a ydynt yn rhai rhestredig ai peidio, yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio.¹⁹

4.2 Cynlluniau Datblygu Lleol ⇄

Os yw awdurdod cynllunio lleol yn dewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, mae'n rhaid cynnwys polisiau ar gyfer eu cadw a'u gwella yn y cynllun datblygu lleol.²⁰ Rhoddir cryn bwys yn y broses gynllunio ar bolisiau mewn cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd. Y rheswm dros hynny yw bod yn rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun mabwysiedig, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall. Gallai polisiau o'r fath dynnu sylw at werth asedau hanesyddol lleol a gallent, er enghraifft, helpu i atgyfnerthu cymeriad lleol a hyrwyddo safonau dylunio uchel.

4.3 Rheoli Datblygu ⇄

Nid yw adeiladau a safleoedd sydd wedi'u cynnwys ar restr o asedau hanesyddol lleol yn cael eu gwarchod gan reolaethau cynllunio ychwanegol. Er hynny, mae polisiau lleol ar gyfer cadw asedau o'r fath yn golygu bod cyfle i ystyried eu diddordeb arbennig pan gynigir newidiadau y byddai angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Mae'n bosibl y bydd newidiadau, megis dymchwel ac estyn ac addasu adeiladau domestig, yn y categori datblygu a ganiateir; mewn achosion o'r fath, dim ond drwy gyflwyno gofyniad i gael caniatâd cynllunio drwy gyfrwng Gyfarwddydd Erthygl 4 y gellir eu rheoli.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid cyflwyno Cyfarwyddydau Erthygl 4, a dim ond pan fo tystiolaeth i ddangos y byddai defnyddio hawliau datblygu a ganiateir yn niweidio amwynder lleol, ond gallant fod yn briodol weithiau er mwyn diogelu adeiladau neu nodweddion sy'n bwysig yn lleol.²¹ Mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth ddefnyddio Cyfarwyddydau Erthygl 4, gan gynnwys niferoedd uwch o geisiadau (na fyddai gofyn talu ffi ar eu cyfer).

4.4 Canllawiau Cynllunio Atodol ⇄

Mae canllawiau cynllunio atodol sy'n gysylltiedig â pholisiau presennol sy'n ymwneud â threftadaeth leol yn y cynllun datblygu lleol yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio.²²

Gallai canllawiau cynllunio atodol roi rhagor o fanylion am y polisiau hyn a helpu i sicrhau bod dealltwriaeth dda ohonynt a bod modd eu rhoi ar waith yn effeithiol.²³

Dylai canllawiau cynllunio atodol ar asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig gynnwys y rhestr o asedau a gallai hefyd ymdrin â'r canlynol:

- y datganiad cyffredinol o arwyddocâd
- datganiad o arwyddocâd ac amcanion rheoli ar gyfer pob ased hanesyddol
- y meini prawf a ddefnyddiwyd i ddethol yr asedau hanesyddol hynny
- y gweithdrefnau ar gyfer nodi a dilysu enwebiadau, ymgynghori, adolygu a chadw cofnodion
- amcanion rheoli cyffredinol
- egwyddorion dylunio cyffredinol ar gyfer newidiadau neu estyniadau.

Gall fod cyfleoedd i awdurdodau lleol gydweithio er mwyn llunio canllawiau cynllunio atodol ar gyfer asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig. Wrth wneud penderfyniadau, bydd cryn bwys yn cael ei roi ar ganllawiau cynllunio atodol sydd â'r nod o warchod a gwella asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig os yw'r canllawiau hynny'n:

- deillio o bolisiâu yn y cynllun datblygu lleol ac yn gyson ag ef
- rhai y cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn eu cylch
- rhai a gymeradwywyd yn ffurfiol gan yr awdurdod cynllunio lleol.²⁴

4.5 Gwybodaeth a Chyngor i Berchenogion \neg

Drwy dynnu sylw at werth treftadaeth leol a thrwy ddathlu cymeriad lleol drwy gyfrwng rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, gall awdurdodau cynllunio lleol hefyd annog perchenogion i ddiogelu nodweddion arbennig eu hadeiladau a'u safleoedd.

Mae'n bwysig esbonio i berchenogion pam mae eu hadeilad neu eu safle o ddiddordeb lleol arbennig ac wedi'u cynnwys ar restr leol. Mae hefyd yn bwysig esbonio beth yw canlyniadau cynnwys adeilad neu safle ar restr leol ac nad yw hynny'n rhwystr sy'n atal newid. Gall cyfres o amcanion rheoli helpu i esbonio goblygiadau cynnwys adeiladau neu safleoedd ar restr leol a nodi amcanion ar gyfer eu cadw, eu hatgyweirio a'u gwella.

Er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion hyn, dylai awdurdodau cynllunio lleol gynnig gwybodaeth a chyngor i berchenogion a phartion eraill â diddordeb am y ffordd orau o ofalu am asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig. Gellir cynnwys egwyddorion cyffredinol mewn canllawiau cynllunio atodol, ond dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd ystyried cynnig cyngor anffurfiol i berchenogion, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio pan fydd angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer newidiadau arfaethedig.

Gellir cyfeirio perchenogion hefyd at ffynonellau eraill o wybodaeth, gan gynnwys gwefan Cadw — yn arbennig yr adran sy'n ymdrin â chynnal a chadw eich eiddo hanesyddol — Cynnal a Chadw!²⁵ Mae canllawiau Cadw ar reoli newid i adeiladau rhestredig hefyd yn cynnwys egwyddorion cyffredinol defnyddiol i'w hystyried wrth wneud newidiadau i adeilad hanesyddol.²⁶ Gellir annog perchenogion i gymryd rhan yng nghynllun Drysau Agored neu gynlluniau diwrnod agored treftadaeth tebyg, sy'n annog y cyhoedd i ymgysylltu â'i dreftadaeth leol yn ogystal â thynnu sylw at ddiddordeb arbennig lleol yr adeilad neu'r safle.²⁷

Ceir rhestr o ffynonellau defnyddiol yn 'Gwybodaeth Bellach' a 'Cysylltiadau'.

Cyfeiriadau ↗

- 1 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy
- 2 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy
- 3 *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>
- 4 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.4.1.1 ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy
- 5 *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016*, adran 35 ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/section/35/enacted/welsh>
Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llundain a Defnyddio (Canllawiau Statudol), Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/records/v1/historicenvironmentrecords/?skip=1&lang=cy
- 6 I gael rhagor o wybodaeth am ddatganiadau o arwyddocâd, gweler *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011 ↗
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy
- 7 *Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ↗
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy
- 8 *Exploring your Town: A Manual and Tool Kit*, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, 2013 ↗
Llunio fy Nhref, Comisiwn Dylunio Cymru, 2014 www.shapemytown.org/
- 9 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, Atodiadau A.2, B.2–B.6 a C1 ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy
- 10 Mae Archwilio yn caniatáu i'r cyhoedd weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer ardal pob awdurdod lleol. Mae Archwilio yn cael ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. ↗
www.archwilio.org.uk
- 11 Mae Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru i'w weld drwy Coflein ↗
www.coflein.gov.uk/cy/
Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru
www.enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/
- 12 *Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru* ↗
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/records/v1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy
- 13 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.4.2 ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy

- 14 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 2.4 ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy
- 15 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, adran 35 ↗
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/section/35/enacted/welsh>
Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio (Canllawiau Statudol), Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/historicenvironmentrecords/?skip=1&lang=cy
Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Safonau a Meincnodau, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/historicenvironmentrecords/?skip=1&lang=cy
- 16 Archwilio www.archwilio.org.uk/ ↗
- 17 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.4.11 ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy
- 18 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 74 ↗
www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/74
- 19 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.5.5 ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy
- 20 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.4.11 ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy
- 21 *Mae Llawlyfr Rheoli Datblygu* Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am ddefnyddio Cyfarwyddydau Erthygl 4. ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?lang=cy
- 22 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, para. 6.5.25 ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy
- 23 *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, para. 2.4 ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy
- 24 *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9), Pennod 2: Cynlluniau Datblygu Lleol, para. 2.3.4 ↗
www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy
- 25 Cynnal a Chadw! ↗
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/lookingafteryourproperty/maintenancematters/?skip=1&lang=cy
- 26 *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 ↗
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy
- 27 Drysau Agored ↗
www.cadw.gov.wales/opendoors/?skip=1&lang=cy

Gwybodaeth Bellach ↗

Polisi a Chanllawiau Cynllunio

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9),
www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9), Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol
www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?lang=cy

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol
www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/?lang=cy

Llawlyfr Rheoli Datblygu
www.gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?skip=1&lang=cy

Canllawiau Arferion Gorau

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy

Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llundain a Defnyddio (Canllawiau Statudol), Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/records/v1/historicenvironmentrecords/?skip=1&lang=cy

Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Safonau a Meincnodau, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/records/v1/historicenvironmentrecords/?skip=1&lang=cy

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy

Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy

Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017
www.cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?lang=cy

Cadwraeth a Nodweddion

Mae Cadw wedi cyhoeddi amryfal gyhoeddiadau sy'n ymdrin â gofalu am wahanol fathau o adeiladau, a sut i'w cadw a'u haddasu. Mae'r rhain i'w gweld ar-lein yma:

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

Exploring Your Town: A Manual and Toolkit, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, 2013

Comisiwn Dylunio Cymru <http://dcfw.org>

Shape my Town Toolkit

www.shapemytown.org/

Cynnal a Chadw!

www.cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/maintenancematters/?skip=1&lang=cy

Gwybodaeth Hanesyddol

Archifau Cymru — catalog ar-lein sy'n caniatáu ichi chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol sy'n cael eu cadw gan y 21 o archifau a geir yng Nghymru.

www.archifau.cymru/

Archwilio — mae'n caniatáu i'r cyhoedd weld cofnodion amgylchedd hanesyddol ar-lein ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Archwilio yn cael ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. www.archwilio.org.uk

Cof Cymru — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongdrrylliadau gwarchoddedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Bydd parciau a gerddi hanesyddol yn cael eu hychwanegu at Cof Cymru yn ystod 2018.

www.cadw.gov.wales/historicenvironment/records/v1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy

Coflein — y catalog ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, sef y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.

www.coflein.gov.uk/cy

Cynefin — adnodd ar-lein er mwyn ymchwilio i fapiau degwm Cymru a'u mynegeion

www.cynefin.archiveswales.org.uk/cy/

Cymru Hanesyddol — porth ar-lein at gofnodion cenedlaethol a rhanbarthol o'r amgylchedd hanesyddol

www.historicwales.gov.uk

LANDMAP — Yr adnodd ar-lein sy'n cynnwys data llinell sylfaen ar dirweddau ac sy'n cael ei gynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff setiau data LANDMAP eu cyhoeddi hefyd fel y bo modd eu lawrlwytho er mwyn eu defnyddio mewn system gwybodaeth ddaearyddol (GIS)

www.lle.gov.wales/Catalogue?text=landmap&lang=cy

Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Canllawiau i Gymru. Methodoleg Tirweddau Hanesyddol LANDMAP

Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Canllawiau i Gymru. Methodoleg Tirweddau Diwylliannol LANDMAP

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru — mae'n cofnodi'r amryfal ffurfiau a sillafiadau o enwau nodweddion topograffig, cymunedau, tramwyfeydd, adeileddau ac agweddau arall ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau sy'n dyddio o cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

www.enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/

Llyfrgell Genedlaethol Cymru www.llgc.org.uk/cy/

Cysylltiadau ↗

Llywodraeth Cymru

Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Plas Caeriw, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd, CF15 7QQ
Ffôn. 03000 256000
cadw@wales.gsi.gov.uk
www.llyw.cymru/cadw

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU
Ffôn. 01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.cbhc.gov.uk/hafan/

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.coflein.gov.uk/cy

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth a chyngorwyr archaeolegol mewnol yr awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol. Os oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer cynigion, gellir cysylltu â swyddogion cynllunio'r awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan, Y Trallwng, SY21 7RR
Ffôn. 01938 553670
trust@cpat.org.uk
http://www.cpat.org.uk/w_index.htm

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Corner House, 8 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, SA19 6AF
Ffôn. 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent
Heathfield House, Heathfield, Abertawe, SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
http://www.ggat.org.uk/index_cym.html

Cymdeithasau Amwynderau

Y Cyngor Archaeoleg Brydeinig

www.new.archaeologyuk.org/

Y Gymdeithas Henebion

www.ancientmonumentsociety.org.uk/

Y Grŵp Sioraidd

www.georgiangroup.org.uk

Y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol

www.spab.org.uk/

Cymdeithas yr Ugeinfed Ganrif

www.c20society.org.uk

Cymdeithas Oes Fictoria

www.victoriansociety.org.uk

Yr Ymddiriedolaeth Theatrau

www.theatretrust.org.uk/

Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru

www.whgt.org.uk/

Sefydliadau Eraill

Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol (ALGAO)

Ffôn: 01223 728140.

www.algao.org.uk/contact

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Tŷ James Williams, 9 Maes yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 5FL

Ffôn: 029 2045 1964

wales@hlf.org.uk

<https://cymraeg.hlf.org.uk/>

Comisiwn Dylunio Cymru

4ydd Llawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL

Ffôn: 029 2045 1964

connect@dcfw.org

<http://dcfw.org/>

Cyfoeth Naturiol Cymru

d/o Y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

www.naturalresources.wales/

Dolenni o'r ddogfen hon

Lle mae'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i wefannau ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partion, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid ystyried bod rhestru dolenni yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau y ceir dolenni iddynt ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb amdanynt nac am unrhyw golled neu niwed a allai ddeillio o'ch defnydd ohonynt.